**Alistair Davey *MA Chartered FCIPD***
**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Social Services and Integration Directorate**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

6 Hydref 2021

Annwyl Randdeiliad

**NODYN CYNGOR YMARFER DA –**
**CYMORTH MABWYSIADU 3 BLYNEDD AR ÔL GWNEUD GORCHYMYN MABWYSIADU**

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005) yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu fel rhan o'r gwasanaethau a gynhelir ganddynt o dan adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Deddf 2002). Caiff gwasanaethau cymorth mabwysiadu hefyd eu diffinio gan adran 2(6) o Ddeddf 2002.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi datblygu nodyn cyngor ymarfer da sy'n rhoi eglurder ynghylch cyfrifoldebau naill ai'r awdurdod lleol sy'n lleoli neu'r awdurdod preswyl/sy'n derbyn (hy lle y mae'r plentyn yn byw gyda'r rhieni sy'n mabwysiadu) o dan Reoliadau 2005. Caiff ei ddrafftio gan gyfeirio'n benodol at anghenion cymorth plentyn pan fydd y cyfrifoldeb dros y Cynllun Cymorth Mabwysiadu, wedi i'r cyfnod o dair blynedd ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu ddirwyn i ben, yn cael ei drosglwyddo o'r awdurdod sy'n lleoli i'r awdurdod preswyl/sy'n derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r nodyn cyngor ymarfer da hwn, yn arbennig mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer yr Awdurdod Lleol preswyl neu sy'n derbyn, yn derbyn y Cynllun Cymorth Mabwysiadu sy'n cael ei drosglwyddo, a byddai'n annog rhanddeiliaid i gyfeirio at ei gynnwys fel rhan o'u harferion gwaith. Mae'r ddogfen ar gael gan wasanaethu rhanbarthol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol neu gan y tîm canolog drwy e-bostio contact@adoptcymru.com.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 6319
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@gov.wales



Alistair Davey *MA Chartered FCIPD*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio